



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Cyfarfod Cyhoeddus y Bwrdd – 25 Mawrth 2020

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd, ac mae croeso i aelodau'r Cyhoedd eu mynychu. Bydd cyfarfod cyhoeddus o'r Bwrdd Iechyd yn cael ei gynnal ar Ddydd Mercher 25 Mawrth 2020 am 9:30am, yn yr Ystafell Gyfarfod, Pencadlys Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Ysbyty Sant Cadog, Caerllion, NP18 3XQ.

Cyngor Coronafeirws (COVID-19): Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i fod yn agored ac yn dryloyw, ac rydym yn cynnal cymaint o'n busnes â phosibl mewn sesiynau y mae croeso i aelodau'r Cyhoedd eu mynychu a'u harsylwi fel arfer. Fodd bynnag, yng ngoleuni'r cyngor a'r canllawiau presennol gan y Llywodraeth mewn perthynas â Choronafeirws (COVID-19), rydym yn gofyn i aelodau o'r cyhoedd ddilyn y cyngor hwn a pheidio â mynychu'r cyfarfod.

Os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r cyfarfod, cysylltwch â Richard Bevan, Ysgrifennydd y Bwrdd, ar 01633 435959.